# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 17 Hydref 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Pete Prendergast a Cefyn Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt i bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – TYN DŴR HALL, TYN DŴR ROAD, LLANGOLLEN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais a dderbyniwyd gan Mr. Thomas Matthew Jones am Drwydded Safle newydd mewn perthynas â Tyn Dŵr Hall, Tyn Dŵr Road, Llangollen;

(ii) yr ymgeisydd a oedd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DAYS APPLICABLE | TIMES |
|---|---|---|
| Darparu Cerddoriaeth Fyw Uchel (Dan do yn unig) | Monday – Sunday | 12.00 – 00:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Dan do ac yn yr awyr agored) | Monday – Sunday | 12.00 – 00:00 |
| Darparu Alcohol (i'w yfed ar y safle) | Monday – Sunday | 12.00 – 00:00 |

Oriau y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd – y bwriad yw y bydd yr eiddo'n gweithredu fel lleoliad arbennig i'w logi/i'w gynnal ar gyfer priodasau a digwyddiadau, a bydd yn cynnig llety i gwsmeriaid yn ogystal â llogi ystafelloedd achlysuron.

(iii) un sylw ysgrifenedig (Atodiad A i'r adroddiad) wedi'i dderbyn gan breswylydd yn yr ardal yn codi pryderon sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus a'r potensial ar gyfer ymddygiad afreolus;

(iv) Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau ar y cais ynghyd â nifer o amodau y bwriedir eu cynnwys o fewn Atodlen Weithredu'r adeilad os bydd y cais yn cael ei ganiatáu (Atodiad B i'r adroddiad); mae'r Ymgeisydd wedi dangos eu parodrwydd cyffredinol i gytuno i'r amodau hynny, ond gofynnwyd i beidio â gosod y TCC tan ar ôl y Nadolig – ar yr amod nad oedd unrhyw ddigwyddiadau cytunodd Heddlu Gogledd Cymru i'r oedi cyn gosod TCC tan fis Mawrth 2017 fan bellaf;

(v) Adran Reoli Llygredd y Cyngor wedi cyflwyno sylwadau (Atodiad C i'r adroddiad) yn codi pryderon yn ymwneud â pha mor agos yw'r safle i eiddo preswyl ac mae'n cynnig nifer o amodau i gael eu gweithredu pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu er mwyn helpu i atal niwsans cyhoeddus;

(vi) yr Atodlen Weithredu arfaethedig (Atodiad D i'r adroddiad);

(vii) y defnydd a fwriedir ar gyfer y lleoliad i fod yn lleoliad priodas a digwyddiadau unigryw ac mewn ymateb i bryderon y preswylydd roedd yr Ymgeisydd wedi cynghori ynglŷn â'u bwriad i weithio tuag at ddatrysiad i unrhyw broblemau a allai ddigwydd o ganlyniad i gynnydd mewn traffig a achosir gan gwsmeriaid; yn yr un modd, er nad yw'r defnydd o dân gwyllt wedi ei awdurdodi gan y Ddeddf Trwyddedu ond yn peri pryder i'r preswylydd, roedd yr Ymgeisydd wedi datgan eu bod ond yn derbyn archebion ar yr amod na fyddai tân gwyllt a llusernau Tsieineaidd yn cael eu caniatáu;

(viii) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyladwy i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; i Ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; i ddeddfwriaeth arall berthnasol ac i sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a'r

(ix) opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Arweiniodd y Swyddog Trwyddedu'r aelodau drwy'r adroddiad a dywedodd bod yr amodau arfaethedig a gyflwynwyd gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor wedi eu cytuno gyda'r Ymgeisydd ers cyhoeddi'r adroddiad.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd Ms Tracey Owen yn bresennol ar ran yr Ymgeisydd Mr Thomas Matthew Jones nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd apwyntiad hir sefydlog a chyflwynodd ei ymddiheuriad yn hynny o beth. Ms Owen oedd chwaer yr Ymgeisydd a Rheolwr/Goruchwyliwr Dynodedig y Safle.

Dywedodd Ms Owen y byddai'r eiddo yn gweithredu fel lleoliad priodas unigryw o ansawdd uchel ac y byddai gwesteion yn aros ar y safle drwy gydol y dydd. Nid oedd unrhyw fwriad i weithredu sefydliad math disgo/clwb a byddai cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel resymol i sicrhau y gallai gwesteion gynnal sgwrs. Dywedodd Ms Owen hefyd fod cymdogion cyfagos wedi'u gwahodd i daith o amgylch y safle er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â safon y sefydliad a'i weithrediad ac roedd ganddi eu cefnogaeth lawn yn hynny o beth. Ychwanegodd fod y gwahoddiad hwn hefyd wedi'i ymestyn i'r gwrthwynebydd gyda golwg ar liniaru ei bryderon ond hyd yma nid oedd wedi derbyn y cynnig – fodd bynnag roedd y gwahoddiad yn dal yn agored pe bai'n dymuno ymweld â'r lleoliad yn y dyfodol.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y sylwadau ysgrifenedig a nifer o amodau a gytunwyd rhwng yr Ymgeisydd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad). Gofynnodd yr Heddlu a fyddai'r aelodau'n penderfynu caniatáu'r cais pe baent yn ystyried ymgorffori'r amodau hynny o fewn yr Atodlen Weithredu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglŷn â'r cais i ohirio gosod y TCC, dywedodd Ms Owen ei fod am resymau busnes yn unig i sicrhau cyn lleied o amhariad ar westeion gan fod tri digwyddiad wedi eu trefnu yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Yr amser gorau ar gyfer gwaith adeiladu pellach a gosod y TCC er mwyn sicrhau cyn lleied o amhariad â phosibl fyddai Ionawr/Chwefror 2017.

**SYLWADAU RHEOLI LLYGREDD**

Cyfeiriodd Mr. Sean Awbery o Adran Rheoli Llygredd y Cyngor at ei sylwadau ysgrifenedig (Atodiad C i'r adroddiad) a chadarnhaodd fod yr amodau hynny bellach wedi eu cytuno gyda'r Ymgeisydd.

**CYFLWYNIAD Y GRŴP Â DIDDORDEB**

Roedd un sylw ysgrifenedig wedi ei dderbyn (Atodiad A yr adroddiad) gan breswylydd sy'n byw yn yr ardal. Roedd y preswylydd wedi dweud na fyddai'n bresennol yn y gwrandawiad ac roedd yn deall y byddai'r gwrandawiad yn cael ei gynnal yn ei absenoldeb. O ganlyniad, cafodd eu sylwadau eu darllen.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Wrth wneud datganiad terfynol Dywedodd Ms Owen am ei chyfoeth o brofiad yn gyffredinol wrth weithredu safleoedd trwyddedig gan gynnwys lleoliadau priodas a gwesty ac roedd yn anelu i ddarparu'r safon uchaf o wasanaeth. Roedd yn rhannu ei gweledigaeth ar gyfer lleoliad priodas hardd, o ansawdd uchel yn Llangollen.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (9.45 am) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr amodau a nodir isod, rhoi Trwydded Safle ar gyfer y canlynol -*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG*** | ***DAYS APPLICABLE*** | ***TIMES*** |
|---|---|---|
| *Darparu Cerddoriaeth Fyw Uchel (Dan do yn unig)* | *Monday – Sunday* | *12.00 – 00:00* |
| *Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Dan do ac yn yr awyr agored)* | *Monday – Sunday* | *12.00 – 00:00* |
| *Darparu Alcohol (i'w yfed ar y safle)* | *Monday – Sunday* | *12.00 – 00:00* |

***AMODAU***

*Fel y cyflwynwyd gan Heddlu'r Gogledd ac y cytunwyd gan yr Ymgeisydd –*

Atal Trosedd ac Anhrefn

*1.* *<u>TCC</u>*

*a) Bydd system TCC yn cael ei osod ar y safle ac yn cael ei weithredu trwy'r adeg y bydd y safle ar agor* ***(System TCC i gael ei osod dim hwyrach na Mawrth 2017 ar yr amod nad oes unrhyw ddigwyddiadau)***
*b) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gamerâu yn monitro tu mewn a thu allan yr adeilad. Yn achos tu mewn yr eiddo bydd digon o gamerâu wedi eu gosod i weld pob rhan o'r adeilad y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ac eithrio ardal y toiledau. Mae'n rhaid i'r holl bwyntiau mynediad ac ymadael ddangos pen ac ysgwyddau yn glir.*
*c) Bydd y system TCC yn ddigon safonol i fedru darparu delweddau o ansawdd tystiolaethol ac yn gallu adnabod wynebau mewn pob math o olau.*
*d) Bydd gan y system TCC gyfleuster i recordio delweddau o bob camera a bydd y lluniau hyn yn cael eu cadw am o leiaf 28 diwrnod.*
*e) Bydd y system TCC yn cynnwys cyfleuster sy'n cynnwys y dyddiad a'r amser cywir ar y delweddau sy'n cael eu recordio.*
*f) Bydd gan y system TCC gyfleuster er mwyn gallu llwytho delweddau i ryw fath o gyfrwng cludadwy. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded safle yw darparu cyfrwng symudadwy, a phe bai cyfrwng symudadwy yn cael ei feddiannu, mae'n gyfrifoldeb ar y safle i sicrhau bod fformatau ychwanegol o gyfryngau symudadwy ar gael.*
*g) Bydd delweddau o'r system teledu cylch caeedig ar gael i'r Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais.*
*h) Bydd o leiaf un aelod o staff a fydd wedi'i hyfforddi i weithredu'r system TCC ac a fydd yn gallu darparu'r delweddau a recordiwyd o'r system TCC ar ddyletswydd ar bob achlysur pan fo'r safle ar agor.*
*i) Mae'n rhaid i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig sicrhau bod gwiriadau wythnosol yn cael eu gwneud ar weithrediad y system teledu cylch cyfyng – eir i'r afael ag*

*unrhyw ddiffygion yn y system ar unwaith. Rhaid i hyn gynnwys sicrhau fod y camerâu yn gweithio, y cyfleusterau recordio, cyfleusterau ar gyfer darparu delweddau a chywirdeb yr amser a'r dyddiad. Mae'n rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r archwiliadau hyn, gan gynnwys llofnod y person sy'n cynnal yr archwiliad. Mae'n rhaid i'r cofnod ysgrifenedig gael ei gadw ar y safle bob amser a dylai fod ar gael i gynrychiolydd o unrhyw awdurdod cyfrifol ar gais.*

2. ***CYN*** *cael caniatâd i werthu alcohol bydd pob aelod o staff heb drwydded bersonol, gan gynnwys unrhyw aelodau o staff di-dâl, aelodau'r teulu a phobl achlysurol a allai fod yn gysylltiedig â gwerthu alcohol ar y safle, gael eu hyfforddi yn eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r Ddeddf honno - yn benodol byddant yn cael hyfforddiant o ran rhoi alcohol i bobl sy'n feddw.*

3. *Cynhelir hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â'r hyfforddiant cychwynnol y sonnir amdano yn 2 uchod ar gyfer pob aelod o staff sy'n ymwneud â gwerthu alcohol bob chwe mis*

4. *Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r hyfforddiant cychwynnol a'r hyfforddiant diweddaru dilynol a dderbyniwyd a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais.*

5. *Llyfr Digwyddiadau a Gwrthod - rhaid cadw llyfr digwyddiadau a gwrthodiad (gyda'r tudalennau wedi'u rhifo) ar y safle a bydd ar gael i'w archwilio gan yr awdurdodau cyfrifol. Rhaid defnyddio'r llyfr digwyddiadau a gwrthod i gofnodi'r canlynol:*

*a) Unrhyw achos o drais neu anhrefn ar neu yn union y tu allan i'r safle.*
*b) Unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â chyffuriau (cyflenwi / meddiant / dylanwad) ar y safle.*
*c) Unrhyw drosedd neu weithgarwch troseddol arall ar y safle.*
*d) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i bobl sy'n feddw.*
*e) Unrhyw achos o wrthod gweini alcohol i rai dan 18 oed neu unrhyw un sy'n ymddangos o dan 18 oed.*
*f) Unrhyw alwad am gymorth yr heddlu i'r safle.*
*g) Unrhyw un sy'n cael eu hanfon o'r safle.*
*h) Unrhyw gymorth cyntaf / gofal arall a roddwyd i gwsmer.*

6. *Mae'n rhaid i'r llyfr digwyddiadau a gwrthod fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau cyfrifol ar gais. Gall yr wybodaeth hon hefyd gael ei chofnodi yn electronig trwy ddefnyddio system til neu system debyg.*

7. *Dylid adolygu'r llyfr digwyddiadau a gwrthod bob pedair wythnos gan y rheolwyr adeiladau a llofnodi/dyddio i gadarnhau cydymffurfiaeth*

8. *Bydd y llyfr digwyddiadau a gwrthod ar gael i'w archwilio ar gais swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol.*

*Amddiffyn Plant Rhag Niwed*

1. *Bydd y safle yn gweithredu polisi gwirio oedran **Her 25***

2. *Bydd yr holl staff, gan gynnwys unrhyw aelodau di-dâl o staff, aelodau'r teulu a phobl achlysurol sy'n ymwneud â gwerthu alcohol yn cael eu hyfforddi yn y polisi Her 25 CYN cael caniatâd i werthu alcohol a byddant yn ymgymryd â hyfforddiant diweddaru bob chwe mis o leiaf.*

3. *Bydd cofnodion o'r hyfforddiant Her 25 yn cael eu cadw a byddant ar gael i'w harchwilio gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol ar gais.*

*Fel y cyflwynwyd gan Adran Rheoli Llygredd y Cyngor ac a gytunwyd gan yr Ymgeisydd -*

*Atal Niwsans Cyhoeddus*

1. *Bydd lobi yn cael ei gosod wrth bob mynedfa ac allanfa, gan gynnwys unrhyw ardal ysmygu wrth y drws, a bydd gan bob lobi 2 set o ddrysau yn cau eu hunain i leihau'r sŵn fydd yn cael ei ryddhau. Bydd y ddau set o ddrysau yn parhau ar gau ac eithrio ar gyfer mynediad a gadael pan fo adloniant wedi ei reoleiddio yn cael ei chwarae ar lefel sy'n cael ei ystyried i fod yn uwch na sŵn 'cefndir'.*

2. *Bydd yr holl ddrysau a ffenestri yn cael eu cadw ar gau pan fo cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel yr ystyrir i fod yn uwch na sŵn 'cefndir' i leihau unrhyw sŵn fyddai'n cael ei ryddhau.*

3. *Os oes angen awyru ychwanegol, bydd yr eiddo yn cael ei osod gydag awyr wedi ei drin yn acwstig / system awyru i osgoi'r angen i agor drysau a ffenestri pan fo cerddoriaeth yn cael ei chwarae ar lefel yr ystyrir i fod yn uwch na sŵn 'cefndir'.*

4. *Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth uwch yn allanol.*

5. *Bydd yr ardal ysmygu'n cael ei gau i'r cyhoedd ar gyfer yfed alcohol cyn 09:00 ac ar ôl 23.00.*

6. *Er mwyn lleihau aflonyddwch i eiddo gerllaw, dim ond rhwng 09:00 a 21:00 y caniateir gosod poteli mewn cynwysyddion y tu allan i'r eiddo.*

7. *Bydd arwyddion amlwg a chlir yn cael eu harddangos ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion y trigolion lleol a gadael yr eiddo a'r ardal yn ddistaw.*

8. *Ni fydd unrhyw oleuadau llachar na goleuadau sy'n flachio yn cael eu gosod ar neu du allan i'r eiddo a bydd unrhyw oleuadau mynediad neu ddiogelwch yn cael eu gosod a'u gweithredu fel na fyddant yn achosi niwsans i eiddo gerllaw.*

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i bob parti yn y cyfarfod a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn -

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais a’r sylwadau a gyflwynwyd yn yr achos hwn yn ofalus ac yn ystyried bod yr amodau a osodwyd yn bodloni’r holl amcanion trwyddedu.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffaith fod yr Ymgeisydd wedi cytuno i’r amodau a gynigiwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ac Adran Rheoli Llygredd y Cyngor ac y byddant yn hybu’r amcanion trwyddedu ac yn ymdrin â'r pryderon a godwyd. Wrth ystyried y sylwadau a wnaed gan y rhai â diddordeb, roedd yr aelodau yn ystyried nifer o bryderon nad oedd yn fater trwyddedu a chyfeiriwyd at ddigwyddiadau hanesyddol nad oedd yn berthnasol i'r cais. Roedd yr Aelodau wedi eu calonogi gan gynrychiolydd yr Ymgeisydd o ran safon a gweithrediad y sefydliad ac roeddent yn ystyried y byddai’r amodau a osodwyd yn mynd i’r afael ag unrhyw bryderon perthnasol a godwyd gan y rhai â diddordeb. Os bydd problemau’n codi gyda gweithredu’r eiddo roedd yr hawl i alw am adolygiad o’r drwydded yn parhau yn agored.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.50 a.m.